Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Biliau Diwygio**

# Gorchymyn drafft Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2025

## Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi ac yn ymgysylltu â sefydliadau perthnasol ar ddyluniad y papur pleidleisio i sicrhau ei fod yn gwbl hygyrch i bobl a allai brofi rhwystrau i arfer eu hetholfraint, o ganlyniad i'r newidiadau i'r trefniadau etholiadol ar gyfer etholiadau'r Senedd. ......5

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod unrhyw 'gyfnod gras' a ddarperir yng Ngorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2025, i ddarpar Aelodau gymryd sedd pan fydd sedd wag yn codi, yn cael ei lywio'n briodol gan ymgynghoriad cadarn gan gynnwys, yn benodol, safbwyntiau gweinyddwyr etholiadol. ........ 8

**Argymhelliad 3.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod mesurau priodol ar waith i ddileu, neu leihau'n sylweddol, y risg y bydd darpar Aelod yn cael ei anghymhwyso rhag bod yn Aelod o'r Senedd o ganlyniad i'r ffaith iddo roi cadarnhad ysgrifenedig o'i fwriad i gymryd sedd wag yn y Senedd cyn iddo ailgofrestru ar y gofrestr etholwyr llywodraeth leol. ........ 9

**Argymhelliad 4.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd am unrhyw newidiadau arfaethedig i amserlen yr etholiad, ac yn rhoi cyfle i'r Senedd wneud sylwadau ar unrhyw newidiadau o'r fath ar adeg briodol yn y broses o'u datblygu. ........ 11

**Argymhelliad 5.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi cyfle i'r Senedd wneud sylwadau ar unrhyw derfynau gwariant arfaethedig ar gyfer

ymgyrchoedd cyn i Orchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2025 gael ei osod yn y Senedd. .......... 14

# 1. Y cefndir

**1.** Ar 11 Rhagfyr 2024, cytunodd y Senedd i newid cylch gwaith y Pwyllgor Biliau Diwygio i graffu ar faterion a gyfeirir ato gan y Pwyllgor Busnes. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno ein canfyddiadau mewn cysylltiad â Gorchymyn drafft Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2025, a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru, y cyfeirir ato hefyd fel "y Gorchymyn Cynnal Etholiadau drafft", sef y mater cyntaf a gyfeiriwyd atom gan y Pwyllgor Busnes o dan ein cylch gwaith diwygiedig.

**2.** Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar y Gorchymyn Cynnal Etholiadau drafft, a daeth yr ymgynghoriad i ben ar 17 Chwefror[1]; lluniwyd ein canfyddiadau i lywio gwaith datblygu pellach Llywodraeth Cymru ar y Gorchymyn Cynnal Etholiadau drafft, yn ystod y cyfnod ymgynghori hwn.

**3.** Mae Gorchymyn Cynnal Etholiadau yn amlinellu'r gweithdrefnau ar gyfer cynnal etholiadau i'r Senedd. Mae'n manylu ar sut y dylid rheoli'r etholiad ac ymgyrchoedd, ac mae hefyd yn mynd i'r afael â'r broses ar gyfer heriau cyfreithiol i etholiad. Y Gorchymyn presennol yw *Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007* ("Gorchymyn 2007"). Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo'n flaenorol i ymgynghori[2] ar Orchymyn dwyieithog wedi'i gydgrynhoi, ac i'w ail-wneud, cyn etholiad y Senedd yn 2026. Mae'r Gorchymyn Cynnal Etholiadau drafft yn diweddaru ac yn cydgrynhoi'r darpariaethau presennol ar gynnal etholiadau ac yn rhoi nifer o newidiadau ar waith i adlewyrchu'r newidiadau i'r system etholiadol ers etholiad y Senedd yn 2021.

**4.** Mae ein gwaith yn y maes hwn wedi canolbwyntio'n bennaf ar faterion yn ymwneud â'r Gorchymyn Cynnal Etholiadau drafft a ystyriwyd yn flaenorol gan y Pwyllgor Biliau Diwygio a'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai mewn cysylltiad â'r darnau a ganlyn o ddeddfwriaeth:

- Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024;
- Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol);

[1] Llywodraeth Cymru, Ymgynghoriad ar Orchymyn drafft Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl)
[2] Llywodraeth Cymru, Papur Gwyn ar weinyddu a diwygio etholiadol

- Deddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024.

**5.** Er mwyn llywio ein hystyriaeth o'r materion hyn, cawsom sesiwn friffio dechnegol gan swyddogion Llywodraeth Cymru ar 23 Ionawr 2025; ar ôl hynny, cawsom sesiwn graffu gyda Jayne Bryant AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai ("yr Ysgrifennydd Cabinet"), sy'n gyfrifol am y Gorchymyn Cynnal Etholiadau drafft, ar 5 Chwefror 2025.

**6.** Cyflwynir ein canfyddiadau yn y penodau sy'n dilyn. Lle y bo'n berthnasol, rydym wedi cynnwys cyfeiriadau at y gwaith blaenorol a wnaed gan bwyllgorau perthnasol y Senedd, h.y. wrth graffu ar y ddeddfwriaeth a nodwyd eisoes, gan gynnwys unrhyw argymhellion a wnaed gan bwyllgorau perthnasol.

# 2. Enwau ymgeiswyr ar bapurau pleidleisio

**7.** Yn ein hadroddiad Cyfnod 1 ar Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), gwnaethom argymell fel a ganlyn:

> Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i gynnwys gofyniad ar wyneb y Bil bod rhaid i bapurau pleidleisio gynnwys enwau pob ymgeisydd, gan gynnwys enwau ymgeiswyr sy'n sefyll ar restrau a gyflwynir gan bleidiau gwleidyddol cofrestredig.[3]

**8.** Yn dilyn hynny yn nhrafodion Cyfnod 2 y Bil, derbyniodd y Senedd welliant[4] a gyflwynwyd gan Jane Dodds AS i'w gwneud yn ofynnol i'r Gorchymyn Cynnal Etholiadau ddarparu bod y papur pleidleisio a ddefnyddir yn etholiadau'r Senedd yn cynnwys enwau'r ymgeiswyr a enwebir ym mhob etholaeth.

**9.** Mae Rheolau 26(4)(a) a (b) o Atodlen 5 i'r Gorchymyn Cynnal Etholiadau drafft yn rhagnodi bod rhaid i bapurau pleidleisio gynnwys (i) enwau ymgeiswyr unigol (h.y. annibynnol) a (ii) personau ar restrau perthnasol y pleidiau.

**10.** Yn ei sesiwn dystiolaeth gyda ni ar 5 Chwefror 2025, cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

> It's always the intention that the ballot paper would include the names of all candidates, including all candidates on a list, and thus reflecting how the

[3] Y Pwyllgor Biliau Diwygio, Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau): Adroddiad Cyfnod 1, Ionawr 2024, argymhelliad 15
[4] Gwelliant 51, Rhestr o welliannau wedi'u didoli

> regional elections were presented in the past. The draft Order makes specific provision for the names of all candidates to be provided on the ballot paper.[5]

**11.** Bydd y Gorchymyn Cynnal Etholiadau drafft yn cael ei wneud yn bennaf o dan bwerau a roddwyd gan adran 13 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ("Deddf 2006"). Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru[6] ymgynghori â'r Comisiwn Etholiadol cyn gwneud Gorchymyn o dan yr adran hon, gan gynnwys dyluniad y papur pleidleisio. Mae'r Gorchymyn Cynnal Etholiadau drafft yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori â'r Comisiwn Etholiadol.

**12.** O ran y papur pleidleisio, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

> […] in partnership with the Royal National Institute of Blind People and local authorities, we're undertaking some trials with blind and partially sighted people of various audio and tactile voting solutions using a mock ballot paper, based on the current regional ballot paper.
>
> […] although we're not testing the ballot paper as it appears in the draft Order, because it's out to consultation, it will provide a real insight into how blind and partially sighted voters might navigate a long ballot paper including all party list candidates.[7]

## Ein barn ni

**13.** Rydym yn falch o weld bod y Gorchymyn Cynnal Etholiadau drafft yn gwneud darpariaeth benodol i'w gwneud yn ofynnol i enwau ymgeiswyr ymddangos ar y papur pleidleisio. Mae hyn yn cyd-fynd ag argymhelliad 15 yn ein hadroddiad Cyfnod 1 ar Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau).

**14.** Roeddem yn falch o glywed yr Ysgrifennydd Cabinet yn cadarnhau bwriad Llywodraeth Cymru i weithio mewn partneriaeth â'r Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall ac awdurdodau lleol i ddod o hyd i atebion i gefnogi pobl ddall a rhannol ddall i bleidleisio'n annibynnol. Mae hwn yn gam pwysig ac yn un sy'n hollbwysig er mwyn sicrhau nad yw'r papur pleidleisio yn rhwystro nac yn atal pobl ddall a rhannol ddall rhag bwrw eu pleidlais yn etholiad nesaf y Senedd.

**15.** Yn ogystal â'r gwaith ymgysylltu hwn, credwn y dylai Llywodraeth Cymru ystyried unrhyw waith ymgysylltu ychwanegol y gellir ei gynnal cyn gosod y

[5] Cofnod y Trafodion [paragraff 76], 5 Chwefror 2025
[6] Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000
[7] Cofnod y Trafodion [paragraff 84], 5 Chwefror 2025

Gorchymyn Cynnal Etholiadau drafft, a allai lywio dyluniad y papur pleidleisio ymhellach. Nodwn fod Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori â'r Comisiwn Etholiadol, fel sy'n ofynnol. Fodd bynnag, o ystyried y newidiadau sydd i ddod i'r ffordd y bydd Aelodau o'r Senedd yn cael eu hethol a'r ardaloedd y maent yn eu cynrychioli, credwn y dylid ystyried gwaith ymgysylltu pellach i sicrhau bod dyluniad y papur pleidleisio yn gwbl hygyrch i bawb.

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi ac yn ymgysylltu â sefydliadau perthnasol ar ddyluniad y papur pleidleisio i sicrhau ei fod yn gwbl hygyrch i bobl a allai brofi rhwystrau i arfer eu hetholfraint, o ganlyniad i'r newidiadau i'r trefniadau etholiadol ar gyfer etholiadau'r Senedd.

## 3. Y cyfle i gofrestru fel etholwr llywodraeth leol os bydd sedd wag

**16.** Yn ein hadroddiad Cyfnod 1 ar Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), gwnaethom argymell fel a ganlyn:

> Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ddarparu mecanwaith i ymgeisydd wrth gefn, a fyddai fel arall yn gymwys i gymryd sedd wag sy'n codi yn ystod tymor Senedd, gofrestru ar y gofrestr etholwyr llywodraeth leol gyda chyfeiriad yn un o etholaethau'r Senedd. Dylai'r mecanwaith gynnwys darpariaeth ar gyfer cyfnod rhesymol o amser y byddai'n ofynnol i'r darpar Aelod fodloni'r cymhwystra yn unol ag ef.[8]

**17.** Bwriad yr argymhelliad hwn oedd caniatáu i unigolyn a allai fod wedi symud allan o Gymru yn ystod tymor y Senedd gael 'cyfnod gras' i gael ailgofrestru ar gofrestr etholwyr llywodraeth leol yng Nghymru er mwyn cymryd sedd wag.

**18.** Gwnaethom fynegi pryderon y gallai darpar Aelod gael ei anghymhwyso'n awtomatig rhag llenwi sedd wag os nad oedd ar gofrestr etholwyr llywodraeth leol yn un o etholaethau'r Senedd pan fo sedd wag yn codi.

[8] Y Pwyllgor Biliau Diwygio, Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau): Adroddiad Cyfnod 1, Ionawr 2024, argymhelliad 39

**19.** Yn ei hymateb[9] i adroddiad y Pwyllgor, derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn mewn egwyddor ond nododd mai'r *"dull mwyaf priodol"* yw cynnwys darpariaeth yn y Gorchymyn Cynnal Etholiadau newydd.[10]

**20.** Roedd yr ymateb yn nodi bod Gorchymyn 2007 ar hyn o bryd yn nodi, os bydd sedd wag ranbarthol yn codi, bod gan Swyddogion Canlyniadau gyfnod "yn ôl yr hyn sy'n rhesymol yn eu tyb hwy" i ystyried a fu'r ymdrechion i gysylltu â darpar aelod yn llwyddiannus ac unwaith y bydd y cyfnod hwnnw wedi mynd heibio, mae'r Swyddog Canlyniadau yn symud i'r darpar Aelod nesaf ar y rhestr.

**21.** Roedd yr ymateb yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu gwneud darpariaeth debyg yn y Gorchymyn Cynnal Etholiadau newydd, ond yn hytrach na gadael y mater i ddisgresiwn pob Swyddog Canlyniadau, byddai'n safoni'r cyfnod y mae'n rhaid i Swyddog Canlyniadau ei roi i ddarpar Aelod cyn symud i'r darpar Aelod nesaf ar y rhestr.

**22.** Cyflwynodd Darren Millar AS welliant[11] yn nhrafodion Cyfnod 2 Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) i ddarparu na fydd darpar Aelod yn cael ei anghymwyso os caiff ei gofrestru ar y gofrestr o fewn 21 diwrnod ar ôl i'r sedd ddod yn wag.

**23.** Gwnaeth Mick Antoniw AS, y Cwnsler Cyffredinol ar y pryd, egluro yn ystod trafodion Cyfnod 2[12] na fyddai Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r gwelliant a chadarnhaodd y byddai diwygiadau'n cael eu gwneud i'r Gorchymyn Cynnal Etholiadau i safoni'r cyfnod y mae'n rhaid i swyddogion canlyniadau ei roi cyn hysbysu'r Llywydd pwy fyddai'n llenwi sedd wag. Cafodd y gwelliant ei dynnu'n ôl.

**24.** Mae rheol 75 o Atodlen 5 i'r Gorchymyn Cynnal Etholiadau drafft yn ymdrin â seddi gwag sy'n codi yn ystod tymor y Senedd. Mae paragraff 5 o Reol 75 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Swyddog Canlyniadau hysbysu'r darpar Aelod erbyn pa ddyddiad y mae'n rhaid iddo gael cadarnhad ynghylch a yw'n fodlon gwasanaethu fel Aelod o'r Senedd. Rhaid i'r cyfnod hwn fod 21 diwrnod o'r dyddiad y mae'r Swyddog Canlyniadau yn cysylltu â'r darpar Aelod.

[9] Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 5 Mawrth 2024
[10] Y "Gorchymyn Cynnal Etholiadau newydd" y cyfeirir ato ym mhennod 3 o'r adroddiad hwn yw Gorchymyn drafft Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2025, sef testun yr adroddiad hwn.
[11] Gwelliant 38, Rhestr o welliannau wedi'u didoli
[12] Cofnod y Trafodion [paragraff 137], 5 Mawrth 2024

**25.** Gan egluro'r rhesymeg y tu ôl i'r cyfnod o 21 diwrnod, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

> The 21-day period reflects the period that was provided for in the amendments tabled at Stage 2. Electoral administrators are being consulted as part of the development of this conduct Order and if their views are substantially different from that then we'll obviously take that into account as part of our consultation process as well.[13]

**26.** O dan Reol 75(11) o Atodlen 5 i'r Gorchymyn Cynnal Etholiadau drafft, unwaith y bydd darpar Aelod wedi datgan yn ysgrifenedig ei fod yn fodlon gwasanaethu fel Aelod o'r Senedd, rhaid i'r Swyddog Canlyniadau hysbysu'r Llywydd yn ddi-oed. Ar ôl i'r Llywydd gael yr hysbysiad hwnnw, effaith Deddf 2006 yw bod y darpar Aelod yn dod yn Aelod o'r Senedd yn awtomatig ar y diwrnod hwnnw.[14]

**27.** Felly, credwn fod y Gorchymyn Cynnal Etholiadau drafft yn caniatáu ar gyfer sefyllfa bosibl, pe bai sedd wag yn codi, lle y gallai darpar Aelod gadarnhau ei fod yn derbyn y swydd wag cyn ailgofrestru ar y gofrestr etholwyr llywodraeth leol (os nad oedd eisoes wedi'i gofrestru).

**28.** Mae hyn yn peri pryder gan fod person wedi'i anghymhwyso rhag bod yn Aelod o'r Senedd os yw'n dod o dan unrhyw un o'r categorïau yn Atodlen 1A i Ddeddf 2006, sy'n cynnwys y gofyniad newydd i Aelodau fod wedi'u cofrestru ar y gofrestr etholwyr llywodraeth leol mewn cyfeiriad yn un o etholaethau'r Senedd.

**29.** O ystyried bod darpar Aelod yn dod yn Aelod yn awtomatig ar ôl i'r Llywydd gael hysbysiad, effaith y Gorchymyn Cynnal Etholiadau drafft a Deddf 2006 yw y byddai darpar Aelod sy'n llenwi sedd wag yn cael ei ethol yn Aelod ac yn cael ei anghymhwyso ar unwaith oni bai ei fod wedi'i gofrestru yn y gofrestr etholwyr llywodraeth leol pan gafodd y Llywydd yr hysbysiad o dan adran 11(3) o Ddeddf 2006 a Rheol 75(11) o'r Gorchymyn Cynnal Etholiadau drafft. Nodwn mai effaith anghymhwysiad o'r fath fyddai annilysu etholiad yr Aelod a gwneud y sedd yn wag eto.[15]

---

[13] Cofnod y Trafodion [paragraff 93], 5 Chwefror 2025
[14] O dan adran 14 o Ddeddf 2006, mae tymor swydd Aelod yn dechrau pan gaiff ei ddatgan bod yr Aelod hwnnw wedi cael ei ethol. O dan adran 11(8) o Ddeddf 2006, pan fydd person yn llenwi sedd wag, dylid ei drin fel pe bai datganiad wedi'i wneud fod y person hwnnw wedi'i ethol ar y diwrnod y caiff y Llywydd hysbysiad gan y Swyddog Canlyniadau ynghylch pwy fydd yn llenwi'r sedd wag.
[15] Adran 18(1) o Ddeddf 2006

**30.** Wrth ateb ein cwestiynau ynghylch hyn, dywedodd Ryan Price, Pennaeth Polisi Diwygio'r Senedd, Llywodraeth Cymru (swyddog yr Ysgrifennydd Cabinet):

> […] it is a possible scenario. I think certainly, in terms of the production of the Electoral Commission's guidance around this, these are the sorts of things that they seek to give clarity to that often are not necessarily made explicitly clear through the legislation itself.
>
> […] we can consider if there's any requirement or any need to change the conduct Order to provide for this, but I suspect a more practicable solution would be to ensure that, as we work with the Electoral Commission on the development of their guidance, that is made explicitly clear to a returning officer, so that when they write out to a prospective Member, asking if they are willing to take up the vacancy and providing this 21-day period, being very clear that the point at which they notify the RO that they are willing to take the vacancy is the point at which the RO will notify that to the Llywydd and take up the vacancy.[16]

## Ein barn ni

O ran y cyfnod o 21 diwrnod, mae'n amlwg mai'r bwriad polisi y tu ôl i hyn yw darparu 'cyfnod gras' addas sy'n caniatáu digon o amser i ddarpar Aelod ailgofrestru ar y gofrestr etholwyr llywodraeth leol (os na fydd wedi'i gofrestru mwyach ar yr adeg pan ddaw'r sedd yn wag) er mwyn cymryd sedd wag.

Mae gennym bryderon ynghylch a yw'r cyfnod hwn o 21 diwrnod yn rhoi digon o amser i ddarpar Aelod gael ei gofrestru eto ar y gofrestr etholwyr llywodraeth leol yn ymarferol. Er ein bod yn gwerthfawrogi eglurhad yr Ysgrifennydd Cabinet bod y cyfnod amser penodol (o 21 diwrnod) yn deillio o welliant a wnaed yng Nghyfnod 2, oherwydd pwysigrwydd y cyfnod hwn o amser, credwn fod angen ei asesu'n drylwyr, ac y dylid llywio'r gwaith hwnnw drwy ymgynghori â gweinyddwyr etholiadol, er mwyn sicrhau bod y cyfnod a ganiateir yn ymarferol ac yn rhesymol i berson gael ei ailgofrestru.

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod unrhyw 'gyfnod gras' a ddarperir yng Ngorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2025, i ddarpar Aelodau gymryd sedd pan fydd sedd wag yn codi, yn cael ei lywio'n briodol gan ymgynghoriad cadarn gan gynnwys, yn benodol, safbwyntiau gweinyddwyr etholiadol.

[16] Cofnod y Trafodion [paragraff 102], 5 Chwefror 2025

Mae gennym hefyd bryderon ynghylch y posibilrwydd y gallai darpar Aelod gael ei anghymhwyso ar unwaith rhag bod yn Aelod, pe bai'n cytuno'n ysgrifenedig i gymryd sedd cyn ailgofrestru ar y gofrestr etholwyr llywodraeth leol. Rydym yn nodi'r farn a fynegwyd gan swyddog yr Ysgrifennydd Cabinet mai'r ffordd fwyaf addas o fynd i'r afael â'r mater hwn yw drwy'r canllawiau a roddir i swyddogion canlyniadau. Mae hwn yn fater difrifol a allai amharu'n sylweddol ar y broses o lenwi seddi gwag yn y Senedd os na chaiff ei ddatrys yn briodol.

**Argymhelliad 3.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod mesurau priodol ar waith i ddileu, neu leihau'n sylweddol, y risg y bydd darpar Aelod yn cael ei anghymhwyso rhag bod yn Aelod o'r Senedd o ganlyniad i'r ffaith iddo roi cadarnhad ysgrifenedig o'i fwriad i gymryd sedd wag yn y Senedd cyn iddo ailgofrestru ar y gofrestr etholwyr llywodraeth leol.

# 4. Yr Amserlen Etholiadol

**31.** Fel rhan o'n gwaith ar Fil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol), bu'r Pwyllgor yn trafod yr amserlen etholiadol ehangach, a chafodd dystiolaeth gan Gymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol, a oedd yn galw am ehangu'r amserlen 25 diwrnod bresennol i gefnogi gweithrediad y cwotâu (yr oedd Llywodraeth Cymru wedi cynnig tri diwrnod ychwanegol ar ei gyfer) ac i leihau risgiau a chynyddu capasiti yn gyffredinol.

**32.** Cynigiodd Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol[17] amserlen 33 diwrnod (yn cynnwys y tri diwrnod ychwanegol ar gyfer gwirio cwotâu ymgeiswyr) ar gyfer etholiad y Senedd yn 2026. Er na fyddai angen y tri diwrnod ychwanegol mwyach, mae Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol wedi bod yn galw am amserlen 30 diwrnod ar gyfer etholiadau ledled y DU ers 2021.

**33.** Yn ein hadroddiad Cyfnod 1 ar Fil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol)[18], roedd y Pwyllgor yn cefnogi amserlen amgen Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol i helpu i gynnal yr etholiad yn llwyddiannus ond cydnabu y byddai angen mynd ati'n ofalus i ystyried ac asesu effeithiau unrhyw newidiadau ar yr amserlen etholiadol. Gwnaethom nodi'n benodol y dylai unrhyw newidiadau osgoi gwneud unrhyw rwystrau presennol o ran sefyll

[17] Mae'r ymatebion ar gael yn llawn ar dudalen yr ymgynghoriad ar y we.
[18] Y Pwyllgor Biliau Diwygio, Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol): Adroddiad Cyfnod 1

etholiad yn waeth, er enghraifft drwy gynyddu nifer y diwrnodau y mae angen i ymgeiswyr gymryd absenoldeb di-dâl.

**34.** Mae'r Gorchymyn Cynnal Etholiadau drafft yn cadw'r sefyllfa bresennol o ran amserlen 25 diwrnod ar gyfer etholiadau'r Senedd, fel y nodir yn Rhan 1 o Atodlen 5 i'r Gorchymyn Cynnal Etholiadau drafft.

**35.** O ran amserlen yr etholiad, dywedodd Michael Kay, Dirprwy Gyfarwyddwr Is-adran Etholiadau Llywodraeth Cymru (swyddog yr Ysgrifennydd Cabinet) yn ystod y sesiwn dystiolaeth:

> I think it's one of those areas that would be quite a noticeable change. It would change the deadline for applying for a postal vote, for party nominations and so on. So, I think it's not something that we'd really thought would be helpful to do unilaterally for the Senedd elections in this instance. It's not something that we've got an in-principle objection to, but I think it's partly about thinking in the round around what our expectations of administrators, of voters, of political parties and other candidates are. So, it's not something that we've looked at with regard to this. It is something that we're open to. We know that the UK Government is considering any changes that it could make to electoral law, so these are ongoing conversations we're having with the UK Government, and it might be that there is scope to move in lockstep with other elections.[19]

**36.** Eglurodd yr Ysgrifennydd Cabinet hefyd fod Llywodraeth Cymru yn awyddus iawn i glywed am hyn gan y bobl sy'n ymateb i'r ymgynghoriad a'u bod yn ymwybodol o farn Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol.

### Ein barn ni

Rydym yn falch o weld bod Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o farn Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol ar amserlen yr etholiad a'i bod yn parhau'n agored i unrhyw wybodaeth a gaiff yn sgil ei hymgynghoriad mewn perthynas â'r mater hwn. Rydym hefyd yn falch bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu parhau i drafod â Llywodraeth y DU, gyda'r nod o sicrhau cysondeb ar draws etholiadau Senedd Cymru a Senedd y DU. Credwn fod y ddeialog hon yn hollbwysig a byddem yn disgwyl gweld hyn yn parhau, gyda'r bwriad o sicrhau bod y prosesau sy'n gysylltiedig ag etholiadau'r Senedd a Senedd y DU yn parhau'n gyson lle bynnag y bo hynny'n bosibl neu'n briodol.

[19] Cofnod y Trafodion [paragraff 113], 5 Chwefror 2025

**Argymhelliad 4.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd am unrhyw newidiadau arfaethedig i amserlen yr etholiad, ac yn rhoi cyfle i'r Senedd wneud sylwadau ar unrhyw newidiadau o'r fath ar adeg briodol yn y broses o'u datblygu.

# 5. Gwariant ar ymgyrchoedd etholiadol

**37.** Ymdrinnir â darpariaethau sy'n ymwneud â gwariant etholiadol ar wahân ar gyfer pleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr unigol.

**38.** Mae gwariant ymgeiswyr sy'n sefyll ar restr pleidiau gwleidyddol yn cael ei drin fel gwariant pleidiau ac felly mae'n cael ei gyfrif o dan Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000.

**39.** Mae'r Gorchymyn Cynnal Etholiadau yn darparu ar gyfer y rheolau ynghylch gwariant ymgeiswyr unigol.

**40.** O dan system etholiadol bresennol y Senedd, mae tri therfyn gwahanol:

- **Terfynau ymgeisydd mewn etholaeth** - caiff pob ymgeisydd fynd i gostau etholiad o hyd at £8,700, ynghyd â swm o naill ai 6c (ar gyfer etholaeth fwrdeistrefol) neu 9c (ar gyfer etholaeth sirol) fesul etholwr yn yr etholaeth honno;
- **Terfynau plaid mewn etholaeth** – caiff plaid wleidyddol gofrestredig fynd i gostau o hyd at £10,000 ar gyfer pob etholaeth lle mae'n sefyll ymgeisydd;
- **Terfynau plaid mewn rhanbarth** - caiff plaid wario hyd at £40,000 ar gyfer pob rhanbarth lle mae'n sefyll rhestr.

**41.** Pe bai plaid wleidyddol yn sefyll ym mhob un o'r 40 etholaeth a phob un o'r pum rhanbarth, byddai hyn yn arwain at gyfanswm terfyn cenedlaethol o £1,147,493. Fodd bynnag, er bod terfynau cost plaid yn cael eu gweithredu'n genedlaethol (h.y. nid oes rhaid eu gwario mewn etholaeth benodol), o ran y terfynau ymgeisydd, dim ond yn yr etholaeth honno ac ar gyfer yr ymgeisydd hwnnw y gellir eu defnyddio.

**42.** Caiff ymgeisydd rhanbarthol unigol fynd i dreuliau hyd at derfyn swm y terfynau ar ymgeiswyr etholaethol ar gyfer yr holl etholaethau sydd yn y

rhanbarth hwnnw. Mae hynny'n golygu £69,600 (8 x £8,700) ynghyd â 6c/9c yr etholwr ym mhob etholaeth.

**43.** Cafodd Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) ei ddiwygio yng Nghyfnod 2[20] i roi pŵer i Weinidogion Cymru bennu terfynau i bleidiau gwleidyddol o ran gwariant ar ymgyrchoedd etholiadol y Senedd. Felly, ni wnaethom ystyried y mater hwn yn ein gwaith ar y Bil yng Nghyfnod 1.

**44.** O ganlyniad i hyn, caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ddiwygio paragraff 6 o Atodlen 9 i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 i bennu'r terfynau sy'n berthnasol i wariant ymgyrch yr eir iddo gan blaid wleidyddol, neu ar ei rhan, sy'n herio un neu fwy o etholaethau yn un o etholiadau'r Senedd. Dim ond gyda chaniatâd y Comisiwn Etholiadol y gellir gwneud y rheoliadau.

**45.** Yn ystod trafodion Cyfnod 2 y Bil, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol ar y pryd:

> *Individual candidate expenditure limits will continue to be regulated through the Conduct Order, and, as the regulations are developed in respect of the changes to party campaign expenses, I will ensure that there is consistency, where appropriate, between candidate and party expenditure limits.*[21]

**46.** Mae'r terfyn uchaf ar gyfer gwariant ymgeiswyr unigol yn dibynnu ar y penderfyniad a wneir gan Lywodraeth Cymru ar y terfyn uchaf ar gyfer pleidiau gwleidyddol. Felly, bydd angen gwneud y penderfyniad hwnnw cyn i'r Gorchymyn Cynnal Etholiadau gael ei osod (ar ffurf ddrafft) gerbron y Senedd. Mae erthygl 48(3) o'r Gorchymyn Cynnal Etholiadau drafft yn cynnwys testun dros dro sydd i'w gadarnhau pan fydd manylion yr uchafswm ar gyfer ymgeiswyr unigol yn hysbys.

**47.** Yn ogystal â chysoni terfynau gwariant ymgyrchoedd, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cynnig symud i un 'cyfnod rheoleiddiedig' hwy ar gyfer cyfrifo treuliau etholiad a fyddai'n berthnasol i bleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr unigol.

**48.** Mae erthygl 49 o'r Gorchymyn Cynnal Etholiadau drafft yn darparu bod y 'cyfnod rheoleiddiedig' hwn yn dechrau bedwar mis cyn dyddiad yr etholiad yn achos etholiad cyffredinol cyffredin y Senedd, neu'r dyddiad sy'n dod bedwar mis

[20] Gwelliant 81, Rhestr o welliannau wedi'u didoli 6 Mawrth 2024
[21] Cofnod y Trafodion [paragraff 302], 6 Mawrth 2024

cyn y dyddiad y byddai'r bleidlais wedi digwydd (rhag ofn y caiff dyddiad yr etholiad ei ddwyn ymlaen o dan adran 4(1) o Ddeddf 2006).

**49.** Ar gyfer etholiadau cyffredinol eithriadol, byddai'r 'cyfnod rheoleiddiedig' yn dechrau ar y dyddiad y mae'r Llywydd yn cynnig diwrnod ar gyfer yr etholiad. Daw'r 'cyfnod rheoleiddiedig' i ben ar ddyddiad yr etholiad ar gyfer y ddau fath o etholiad.

**50.** Gan gyfeirio at derfynau gwariant ymgyrchoedd, dywedodd swyddog yr Ysgrifennydd Cabinet:

> [...] we're currently working with the Electoral Commission on the regulations that will change the political party spending limits. Their consent is required in order to make those regulations, so we have taken the responses to the consultation.
>
> [...] a couple of the options that are included in that consultation are whether party spending limits should be calculated purely by reference to the number of constituencies that a party is contesting, or should it also take into account the number of candidates that parties are standing on lists. I think the responses to that consultation were very broad, so we're currently working with the Electoral Commission to come to an agreed position on that that the regulations can give effect to.[22]

**51.** O ran yr amserlen ar gyfer cyflwyno'r rheoliadau, dywedodd y swyddog:

> [...] we're working broadly on the same timescales as the conduct Order, so we'll be looking to have the specific Order that makes the changes to party expenses before the summer. But as soon as we have an agreed policy position on what the parties' spending is, we'll be able to use that figure to effectively create the independent candidate spending limit that's in the conduct Order.[23]

## Ein barn ni

**52.** Rydym yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn y broses o ddatblygu'r rheoliadau sy'n pennu'r terfynau gwariant ar gyfer pleidiau ac, unwaith y byddant wedi'u gwneud, y bydd y rheoliadau hyn yn llywio'r terfynau a bennir ar gyfer ymgeiswyr unigol yn y Gorchymyn Cynnal Etholiadau. Er nad lle'r

[22] Cofnod y Trafodion [paragraff 142], 5 Chwefror 2025
[23] Cofnod y Trafodion [paragraff 143], 5 Chwefror 2025

Pwyllgor hwn yw gwneud sylwadau ar y terfynau gwariant ar gyfer ymgyrchoedd eu hunain – yn sgil y broses a'r amserlen a bennwyd gan yr Ysgrifennydd Cabinet a'i swyddogion – credwn y byddai'n fuddiol pe bai'r Senedd yn cael cyfle i wneud sylwadau ar y terfynau gwariant arfaethedig cyn iddynt gael eu cyflwyno. Rydym yn deall efallai na fydd yr amserlen yn caniatáu i'r Senedd wneud sylwadau ar y rheoliadau eu hunain cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd; fodd bynnag, anogwn yr Ysgrifennydd Cabinet i rannu unrhyw benderfyniadau a wneir mewn perthynas â'r terfynau gwariant arfaethedig, boed mewn datganiad ysgrifenedig neu fel arall, ar y cyfle cyntaf.

**Argymhelliad 5.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi cyfle i'r Senedd wneud sylwadau ar unrhyw derfynau gwariant arfaethedig ar gyfer ymgyrchoedd cyn i Orchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2025 gael ei osod yn y Senedd.